
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Tonypandy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-667-0

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 10

   Ansawdd Profiad y Claf 10

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 13

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 18

4. Y camau nesaf 23

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 24

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 25

Atodiad C – Cynllun gwella 27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Tonypandy, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar 11 Awst 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr, a chwblhawyd wyth holiadur gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gofal amserol a gofal teg. Roedd cleifion yn cael eu cefnogi i gynnal iechyd y geg da drwy wybodaeth hybu iechyd amrywiol a hygyrch, a oedd ar gael ar fersiynau print ac ar-lein ac roedd clinigwyr yn rhoi cyngor wedi'i deilwra yn ystod ymgyngoriadau. Roedd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys ffioedd, manylion y tîm deintyddol, oriau agor, trefniadau brys, y datganiad o ddiben a'r canllaw gwybodaeth i gleifion ar gael yn glir i gleifion.

Roedd yr adborth o holiadur AGIC yn gyson gadarnhaol, gyda chleifion yn cadarnhau bod y staff yn trafod iechyd y geg, yn esbonio triniaethau'n glir, yn gwrando arnynt, yn ateb cwestiynau ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Roedd gan y practis drefniadau effeithiol i gynnal urddas a phreifatrwydd, gan gynnwys cytundebau cyfrinachedd, lleoedd preifat ar gyfer sgyrsiau sensitif a mesurau priodol mewn ystafelloedd clinigol. Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd mynediad amserol at ofal yn cael eu cefnogi drwy opsiynau trefnu apwyntiadau hyblyg, apwyntiadau brys dyddiol, brysbennu clinigol a chyfathrebu clir ynghylch achosion o oedi.

Roedd y practis hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi mynediad teg, gan gynnwys gwybodaeth ddwyieithog, fformatau amgen, cymorth cyfieithu, dolen sain, ramp cadair olwyn, apwyntiadau hwy a chyfeirio at eiriolwyr. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion cleifion trawsryweddol ac anneuaidd. Roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â chofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ystod eang o ddeunyddiau hybu iechyd y geg ar gael
- Roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion, a pharch tuag atynt, yn cael eu cynnal yn gyson
- Roedd ystod dda o ddeunyddiau dwyieithog a hawdd eu deall ar gael.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis wedi dangos ymrwymiad cadarnhaol i ddarparu gofal diogel, effeithiol ac effeithlon gyda llawer o systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi diogelwch cleifion, llywodraethu clinigol a chanlyniadau da. Roedd y safle mewn cyflwr da ar y cyfan, yn lân, roedd cyfarpar addas ynddo ac roedd yn hygyrch, gyda threfniadau effeithiol ar waith ar gyfer iechyd a diogelwch, parhad busnes, asesu risgiau a diogelwch tân. Fodd bynnag, nododd un aelod o'r staff yn yr holiadur i staff fod y practis wedi paentio dros lwydni du heb ymdrin â'r mater oedd wrth wraidd y llwydni. Yn dilyn hynny, dywedodd y rheolwr wrth AGIC nad oedd y contractwyr wedi dod o hyd i unrhyw lwydni, ond roedd achos o leithder wedi'i nodi a oedd wedi'i achosi gan ollyngiad o un o ffenestri'r to. Mae'r gollyngiad wedi'i atgyweirio a'r lleithder wedi'i drin.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cefnogi'n dda drwy bolisïau clir, amserlenni glanhau, cyfleusterau priodol, cyfarpar diogelu personol, prosesau rheoli gwastraff ac ymwybyddiaeth y staff o weithdrefnau anafiadau offer miniog. Roedd parodrwydd am argyfwng yn gadarnhaol hefyd, gyda meddyginiaethau brys, cyfarpar adfywio, trefniadau ocsigen, rhoi gwybod am ddigwyddiadau a hyfforddiant staff yn cyfrannu at systemau gofal diogel.

Roedd y trefniadau diogelu yn effeithiol, yn cael eu cefnogi gan bolisïau priodol, llwybrau adrodd clir, staff hyfforddedig ac arweinwyr dynodedig. Roedd y practis hefyd wedi dangos trefniadau cryf ar gyfer defnyddio cyfarpar clinigol, dyfeisiau meddygol ac ymbelydredd ïoneiddio yn ddiogel, gan gynnwys cymorth proffesiynol, hawliau staff, sicrhau ansawdd a phrosesau llywodraethu. Roedd gofal cleifion yn cael ei gefnogi gan systemau cofnodion clir, monitro atgyfeiriadau a llwybrau trin priodol, wrth i ddefnydd effeithlon o'r tîm deintyddol, brysbennu apwyntiadau a systemau apwyntiadau wedi'u canslo helpu i hyrwyddo mynediad amserol at ofal. Fodd bynnag, roedd angen gwella cysondeb yn y cofnodion clinigol ar gyfer pelydrau-X, cydsyniad, trafodaethau ar risgiau a manteision a chyngor ar roi'r gorau i smygu.

Roedd hefyd angen cryfhau sicrwydd a dogfennaeth ymhellach, gan gynnwys sicrhau bod hyfforddiant diogelwch tân heb ei gwblhau yn cael ei gwblhau a datblygu polisi rheoli meddyginiaethau a sail dystiolaeth mwy cynhwysfawr.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mynd i'r afael â phryderon staff a godwyd yn yr holiadur i staff.
- Cwblhau'r hyfforddiant tân sy'n weddill
- Cryfhau trefniadau llywodraethu yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau a hyfforddiant diogelu cadarnhaol
- Defnydd effeithlon o apwyntiadau, gan gynnwys capasiti dyddiol ar gyfer gofal brys.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd y practis gryfderau clir ar draws arweinyddiaeth, llywodraethu, gweithlu, diwylliant, rheoli gwybodaeth, gwella ansawdd a gweithio mewn partneriaeth. Roedd strwythurau rheoli effeithiol, trefniadau atebolrwydd priodol ac ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus. Roedd llywodraethu cryf yn cael ei ddangos drwy gyfarfodydd practis rheolaidd, goruchwyliaeth staff, goruchwylio polisïau, prosesau rheoli risg a defnyddio adnoddau datblygu i gefnogi myfyrdod a gwelliannau. Dangosodd y practis ddiwylliant gweithlu cefnogol, gyda threfniadau staffio diogel, proses sefydlu wedi'i strwythuro, monitro datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), arfarniadau a gwiriadau recriwtio ar waith. Roedd staff yn cael eu hannog i godi pryderon ac roeddent yn ymddangos yn hyderus wrth wneud hynny, gan adlewyrchu amgylchedd gwaith agored a chadarnhaol.

Roedd trefniadau staffio addas, cynllun sefydlu cynhwysfawr, gwiriadau cymhwysedd a chamau i oruchwylio cofrestriadau proffesiynol, hyfforddiant ac arfarniadau yn helpu i sicrhau bod y gweithlu'n fedrus ac yn cael ei gefnogi. Roedd y staff yn deall sut i godi pryderon a gwnaethant ddisgrifio diwylliant agored lle roedd unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu. Roedd amrywiaeth o ffyrdd hygyrch o roi adborth yn cael eu cynnig i'r cleifion, a rhannwyd canlyniadau gan ddefnyddio'r dull “Dywedoch chi, gwnaethom ni” a wnaeth helpu i ddangos dysgu ac ymatebolrwydd.

Roedd gan y practis drefniadau effeithiol hefyd i rannu gwybodaeth am ddiogelwch cleifion, dysgu o ddigwyddiadau a defnyddio archwiliadau i ysgogi gwelliannau, gan gynnwys cadw cofnodion a chofnodi iechyd meddwl. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn amlwg drwy ymgysylltu â meddygon teulu, cysylltiadau â fferyllfeydd lleol a strwythur corfforaethol ehangach MyDentist. Fodd bynnag, nododd un aelod o'r staff yn yr holiadur i staff fod diffyg capasiti deintyddol y GIG yn y practis, a oedd yn arwain at staff yn cael eu cam-drin ar lafar sy'n eu llethu ac yn achosi straen mawr iddynt. Mae methu â diwallu anghenion a gorchmynion y cleifion yn anodd iawn ac mae'r gamdriniaeth rwy'n ei chael ar lafar bob dydd yn eithafol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi sicrwydd i AGIC ynghylch y materion capasiti staff yn yr holiadur i staff

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau rheoli clir ac effeithiol
- Prosesau recriwtio cadarn
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth cadarnhaol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr adborth a gawsom gan ymatebwyr i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r deintyddion a'r derbynyddion yn darparu gofal eithriadol. Maent yn rhoi'r cleient yn gyntaf bob amser."*
>
> *"Mae'r staff i gyd yn gwbl hyfryd. Rwyf bob amser yn teimlo fy mod i'n cael gofal pan fyddaf yn gweld fy neintydd."*
>
> *"Deintydd hyfryd, staff cyfeillgar. Hapus gyda fy nhriniaeth."*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn cefnogi cleifion i ofalu am iechyd eu ceg drwy ddarparu amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar brint ac ar-lein. Roedd gwybodaeth yn cael ei dangos mewn ardaloedd hygyrch o'r practis, gan gynnwys hysbysfyrddau yn ardal y dderbynfa ac ar gefn drysau'r toiledau ac roedd gwybodaeth berthnasol ar brint yn cael ei darparu i gleifion yn ystod ymgyngoriadau gyda chlinigwyr lle y bo'n briodol.

Roedd y staff yn rhoi cyngor wedi'i deilwra i'r cleifion ar iechyd y geg yn ystod apwyntiadau ymgynghori, a oedd yn cefnogi gofal cleifion a oedd wedi'i deilwra at yr unigolyn. Roedd gwybodaeth am ffioedd, y tîm deintyddol, rhifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, oriau agor a threfniadau brys/y tu allan i oriau yn cael ei harddangos mewn ardaloedd amlwg fel y tu allan i'r practis ac ar hysbysfyrddau. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw gwybodaeth i gleifion ar gael ar bapur ac roeddent wedi'u cyhoeddi ar wefan y practis. Roedd hyn yn sicrhau y gallai'r cleifion gael gafael ar wybodaeth berthnasol a chyfredol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiynau perthnasol yn holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i sicrhau bod urddas a phreifatrwydd cleifion yn cael eu parchu. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi cytundeb cyfrinachedd ac roedd trefniadau ar waith i gefnogi sgyrsiau preifat, gyda galwadau cyfrinachol yn cael eu cymryd i ffwrdd o ardal y dderbynfa pan oedd angen. Roedd yr amgylchedd clinigol

hefyd yn cefnogi preifatrwydd y cleifion, gan fod modd cloi ystafelloedd trin, roedd gwydr ffenestri wedi'u cuddio lle roedd angen a gellid defnyddio arwyddion ar ddrysau i ddangos pan oedd ystafelloedd yn cael eu defnyddio.

Roedd naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y practis, a oedd yn helpu i atgyfnerthu'r safonau proffesiynol disgwyliedig. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod aelodau'r tîm deintyddol yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad. Roeddent yn teimlo bod y tîm yn gwrando arnynt ac roedd unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt yn cael eu hateb. Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo bod opsiynau triniaeth yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, gan eu galluogi i wneud dewis gwybodus am eu gofal a'u cynllun triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis er mwyn helpu cleifion i gael gofal a thriniaethau pan oedd eu hangen arnynt. Neilltuwyd amseroedd apwyntiad i gleifion a rhoddwyd gwybod iddynt gan staff y dderbynfa, y staff deintyddol neu'r staff nyrsio os byddai mwy na 10 munud o oedi gan gynnig aildrefnu'r apwyntiad os byddai angen. Gallai'r cleifion wneud cais am apwyntiad ar-lein neu dros y ffôn, a chynigiwyd apwyntiadau dilynol ar adegau a oedd yn addas iddynt a oedd yn cefnogi mynediad hyblyg at ofal.

Roedd apwyntiadau brys ar gael yn ddyddiol gyda chleifion yn gallu ffonio yn y bore os byddai angen. Roedd y practis yn blaenoriaethu'r cleifion â'r anghenion gofal mwyaf brys drwy gael clinigydd priodol i'w brysbennu'n glinigol. Roedd dyddiadau ac amseroedd apwyntiadau'n cael eu trafod â'r cleifion adeg trefnu'r apwyntiad, a oedd yn helpu i sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu trefnu ar amseroedd addas.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' trefnu apwyntiad ac roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi anghenion cyfathrebu'r cleifion. Roedd gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys deunyddiau iechyd, costau cleifion, y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion

ac roedd arwyddion dwyieithog yn cael eu harddangos drwy'r practis. Roedd y staff yn gallu cael cymorth cyfieithu drwy'r bwrdd iechyd ac roedd y bwrdd hefyd yn cynnig hyfforddiant Cymraeg i'r staff a oedd yn dymuno datblygu eu sgiliau. Er nad oedd staff sy'n siarad Cymraeg na dysgwyr Cymraeg ar gael ar adeg yr arolygiad, dangosodd y practis ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac roedd trefniadau ar waith i geisio cymorth lle bo'n ofynnol.

Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i gleifion mewn fformatau eraill, gan gynnwys yn Gymraeg, mewn print mawr a hawdd ei deall ac roedd dolen sain ar gael yn y dderbynfa i gefnogi cleifion a oedd yn drwm eu clyw. Roedd cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol yn gallu trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy unigolyn a enwebwyd i weithredu ar eu rhan, a oedd yn cefnogi mynediad teg at ofal deintyddol.

Roedd yr adborth gan gleifion yn dangos nad oedd angen cymorth Cymraeg, gan fod y cleifion a oedd yn cwblhau'r holiadur yn dweud mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Cadarnhaodd un claf y gwnaethom siarad ag ef fod y staff wedi defnyddio rhai cyfarchion Cymraeg a oedd yn adlewyrchu dull cadarnhaol o gydnabod y Gymraeg lle bo'n bosibl.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ei ddiwylliant, polisïau a phrosesau o ddydd i ddydd. Roedd polisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant perthnasol ar waith ac yn gyfredol ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd y gwasanaeth wedi gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi mynediad teg, gan gynnwys amseroedd apwyntiadau hyblyg, apwyntiadau hwy i gleifion ag anghenion ychwanegol, cyfeirio ar wasanaethau eiriolaeth, deunyddiau hawdd eu deall a gwasanaethau cyfieithu.

Dangosodd y practis ymwybyddiaeth o hawliau cleifion trawsryweddol ac anneuaidd gan fod y staff yn defnyddio rhagenwau cywir, yn cofnodi gwybodaeth berthnasol ar y system ac yn cwblhau hyfforddiant penodol.

Ar y cyfan, nododd y dystiolaeth bod y practis wedi cymryd camau cadarnhaol i gydnabod a chynnal amrywiaeth a hawliau unigolion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, a dywedodd pob un ohonynt nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r practis hwn na'i ddefnyddio.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Roedd y staff o gymorth mawr gyda fy ngholled clyw."*

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis yn cynnal amgylchedd diogel ac addas at y diben ar y cyfan. Roedd y maint a'r cynllun yn addas ar gyfer y gwasanaeth ac roedd niferoedd y cleifion a'r amodau cyffredinol yn gadarnhaol, gan gynnwys lefelau da o olau, glendid, awyru mewn ystafelloedd trin, arwyddion priodol a chyfathrebiadau mewnol effeithiol.

Cododd un aelod o'r staff bryderon yn holiaduron AGIC mewn perthynas â phresenoldeb llwydni a oedd yn codi'n fynych mewn ardal glinigol. Nododd fod y mater wedi bod yn un parhaus am gyfnod estynedig a mynegodd bryderon nad oedd y camau unioni wedi mynd i'r afael yn llwyr â gwraidd yr achos. Mynegwyd pryderon hefyd mewn perthynas â'r effaith bosibl ar iechyd a diogelwch staff. Nid oeddem yn ymwybodol o'r mater hwn yn ystod yr arolygiad ac ni welsom dystiolaeth a oedd yn ein galluogi i wirio'r pryderon a godwyd. Fodd bynnag, mae'r adborth a ddarparwyd yn nodi y dylai'r practis adolygu'r mater.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC fod pryderon a godwyd gan staff mewn perthynas â llwydni mynych mewn ardal glinigol wedi bod yn destun ymchwiliad llawn a bod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd i nodi a mynd i'r afael â gwraidd unrhyw achos a'r risgiau iechyd a diogelwch cysylltiedig.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i gefnogi gofal diogel ac effeithiol, gan gynnwys cyfarpar deintyddol addas, cynllun parhad busnes, polisi iechyd a diogelwch, prosesau cynnal a chadw'r safle ac asesiadau risg perthnasol.

Roedd ramp y gellir ei symud ar gael i bobl mewn cadair olwyn gyda chymorth ar gael drwy'r gloch yn y ffrynt. Fodd bynnag, dywedodd un claf:

"Dydw i ddim yn meddwl bod y drws ffrynt yn hygyrch iawn i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn."

O ystyried yr adborth hwn, efallai y byddai'r practis yn dymuno edrych ar hygyrchedd y fynedfa.

Roedd asesiad risg tân a chynllun gweithredu cyfredol ar gael, contract cynnal a chadw ar gyfer cyfarpar tân, larymau a diffoddwyr a thystiolaeth o brofion rheolaidd ar gyfarpar canfod tân, gan gynnwys profion a arsylwyd yn ystod yr arolygiad. Roedd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân, cyfarwyddiadau mewn achos o dân, man ymgynnull a dim smygu yn cael eu harddangos yn glir ac roedd diffoddwyr tân ar gael. Roedd gan y practis hefyd dystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd ac adolygiad blynyddol o ragofalon diogelwch tân. Fodd bynnag, dangosodd y dystiolaeth fod hyfforddiant diogelwch tân tri aelod o'r staff wedi dod i ben.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr aelodau perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant sydd heb ei gwblhau.

Roedd y ddogfennaeth diogelwch ofynnol, gan gynnwys diogelwch nwy, profion offer cludadwy, cofnodion archwilio gosodiadau trydanol, tystysgrifau yswiriant a'r poster iechyd a diogelwch, ar gael neu'n cael eu harddangos fel y bo'n ofynnol.

Roedd y trefniadau rheoli gwastraff yn briodol ac roedd Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu cefnogi gan arwyddion priodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i gefnogi'r trefniadau atal a rheoli heintiau, gydag arweinydd rheoli heintiau dynodedig wedi'i nodi. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael, roedd amserlenni glanhau ar waith ac roedd cyfleusterau hylendid dwylo a chyfarpar diogelu personol addas ar gael i'r staff. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r practis, gan gynnwys trefniadau ar gyfer brechiadau perthnasol ac roedd y staff yn ymwybodol o'r protocol anafiadau offer miniog pe bai unrhyw un yn cael anaf o'r fath. Roedd cyfarpar a rennir a dyfeisiau meddygol amldro yn cael eu rheoli'n briodol, gyda rhaglenni cynnal a chadw dyddiol, rhestrau gwirio'r ddeintyddfa, gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd a phrofion cyfnodol yn cael eu cwblhau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd asesiad risg salwch anadlol a siart lif rheoli cleifion wedi'u rhoi ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad, gan roi arweiniad cliriach i'r staff ar reoli cleifion a oedd yn dangos symptomau o haint anadlol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis yn dangos trefniadau cadarnhaol ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol, meddyginiaethau brys a chyfarpar adfywio. Roedd tystiolaeth fod cyffuriau brys a chyfarpar adfywio allweddol ar gael, gan gynnwys Diffibriliwr Allanol Awtomataidd a'r padiau cysylltiedig. Roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) ac adfywio brys, gan gynnwys anaffylacsis. Roedd y trefniadau ar gyfer argyfyngau meddygol yn cael eu cefnogi gan bolisïau yn seiliedig ar ganllawiau adfywio cenedlaethol, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol ac ar gael i'r cleifion ar gais. Roedd tystiolaeth gadarnhaol hefyd wedi'i nodi mewn perthynas â chynnal a chadw silindrau ocsigen, hyfforddiant i'r staff ar ddefnyddio ocsigen, trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau, sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael a threfniadau cymorth cyntaf priodol.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio oddi wrth y cleifion, roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel a rhoddwyd gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau hefyd.

Nododd yr arolygiad er nad oedd polisi rheoli meddyginiaethau cyffredinol ar gael, roedd polisïau unigol ychwanegol ar waith a oedd yn cwmpasu sawl posibiliad a oedd yn gysylltiedig â rheoli meddyginiaethau. Trafodwyd â rheolwr y practis y dylai polisi rheoli meddyginiaethau ysgrifenedig fod ar gael, y dylid ei adolygu a dylai fod ar gael i'r staff ei ddarllen.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis drefniadau diogelu priodol ac effeithiol. Roedd polisi diogelu ar gael a oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol cywir ar gyfer rhoi gwybod am bryderon, ac roedd y staff yn gallu cael gafael ar Weithdrefnau Diogelu Cymru yn electronig. Roedd y staff yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth gyfredol am faterion amddiffyn plant ac oedolion drwy hyfforddiant rheolaidd.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod â phwy i gysylltu yn lleol ac roeddent yn deall y camau y dylid eu cymryd i nodi pryderon diogelu, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt. Roedd y staff yn cael eu cefnogi gan ddau arweinydd diogelu yn y practis a oedd, yn eu tro, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr cofrestredig, rheolwr y practis a thîm diogelu'r awdurdod lleol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion hyd at lefel briodol.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd trefniadau cadarnhaol ar waith yn y practis i gefnogi'r broses o reoli a defnyddio cyfarpar clinigol ac ymbelydredd ïoneiddio yn ddiogel. Dywedwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas i'w defnyddio, gyda threfniadau ar waith ar gyfer cynnal a chadw, archwilio ac ymateb yn brydlon os bydd y cyfarpar neu'r system yn methu. Roedd dyfeisiau meddygol amldro yn cael eu trafod a'u diheintio'n briodol ac roedd y cywasgydd wedi'i wasanaethu yn unol â'r gofynion disgwyliedig.

Roedd gan y practis gymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol a Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd priodol ac roedd gweithdrefnau'r cyflogwr, a oedd yn ofynnol gan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017 ar waith. Roedd y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd IR(ME)R ac roedd y dystiolaeth yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant, eu bod yn gymwys a bod ganddynt hawl i ymgymryd ag agweddau ymarferol ar gysylltiadau a chynnal gwerthusiad clinigol o belydrau-X deintyddol. Roedd trefniadau rheoli risg a sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig, protocolau, cyfarpar, ansawdd delweddau, lefelau dosau a rheoli digwyddiadau.

Roedd trefniadau sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer cyfarpar pelydr-X digidol, prosesu delweddau, cadw copïau wrth gefn o ddata, cofnodion cynnal a chadw, goruchwyliaeth reolaidd o gyfarpar arferol, adroddiadau o gyfarpar pelydr-X, gyda thystiolaeth o archwiliadau critigol sampl wedi'u gweld. Roedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos bod y practis wedi sefydlu systemau diogel ac effeithiol i reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag

ymbelydredd a chynnal a chadw cyfarpar yn ddiogel. Fodd bynnag, gallai'r practis ystyried defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio, neu adnodd sicrhau ansawdd cyfatebol, i gefnogi ymhellach a dangos tystiolaeth o arferion da parhaus.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau diogel ac effeithiol ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos bod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol wedi'u dilyn, lle y bo'n briodol, wrth ddarparu triniaeth. Roedd y practis hefyd yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs) i gefnogi gofal diogel ac er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dant anghywir. Yn ogystal, roedd y staff wedi cael cyngor proffesiynol perthnasol lle y bo'n ofynnol, gan ddangos dull cadarnhaol o lywodraethu clinigol, diogelwch cleifion a gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol.

Cofnodion cleifion

Roedd systemau a pholisïau priodol ar waith yn y practis i gefnogi proses o gadw cofnodion cleifion, rheoli cofnodion a chynnal hawliau'r cleifion. Cadarnhawyd bod y trefniadau rheoli cofnodion, cydsynio, capasiti, llywodraethu gwybodaeth a chadw ar waith a bod y practis yn rheoli cofnodion yn unol â'r gofynion diogelu data perthnasol. Roedd cofnodion y cleifion yn electronig gan ddefnyddio datrysiad meddalwedd masnachol ac roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y broses o gyfiawnhau pelydrau-X a rhoi gwybod amdanynt yn cael eu cofnodi'n glir, ynghyd â chydsyniad, trafodaethau am risgiau a manteision, manylion cysylltiad ag ymbelydredd, opsiynau iaith a chyngor ar roi'r gorau i smygu lle y bo'n berthnasol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n gyson a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol, gan gynnwys y meysydd a nodwyd yn ystod ein hadolygiad o gofnodion cleifion.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i gefnogi atgyfeiriadau dilynol, gan gynnwys prosesau i gadarnhau bod yr ysbyty wedi gweld cleifion a atgyfeiriwyd am fod amheuaeth bod ganddynt ganser y geg.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd trefniadau ar waith yn y gwasanaeth er mwyn helpu i ddarparu gofal effeithlon o ansawdd da. Roedd y staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r tîm deintyddol ehangach, gan gynnwys hylenwyr a nyrsys, er mwyn cefnogi llif cleifion drwy'r llwybrau trin, gyda sgiliau ychwanegol fel cymryd pelydr-X yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at ofal amserol. Roedd y trefniadau atgyfeirio'n cael eu cefnogi gan broses archwilio a chofnodlyfr archwilio atgyfeiriadau, a oedd yn helpu i oruchwylio atgyfeiriadau a hyrwyddo gofal ymlaen cadarn ac effeithlon. Roedd anghenion gofal deintyddol brys yn cael eu rheoli drwy slotiau brysbennu dan arweiniad deintydd a slotiau apwyntiadau brys dyddiol, a oedd yn helpu'r cleifion i gael gafael ar ofal priodol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o bresenoldeb y gellid bod wedi'i osgoi mewn gwasanaethau gofal brys neu y tu allan i oriau.

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau wedi'u canslo i gleifion eraill, a oedd yn cefnogi proses rheoli apwyntiadau effeithlon drwy alluogi cynnig apwyntiadau a oedd yn dod ar gael i gleifion eraill.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd yr ymatebion i'r arolwg staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn cyfeirio at hyfforddiant priodol, arfarniadau rheolaidd ac amgylchedd gwaith addas. Mynegodd pawb a ymatebodd hyder yn ansawdd y gofal a ddarperir, gan nodi bod cleifion yn cael eu trin ag urddas ac yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal, gyda'r rhan fwyaf yn nodi mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Roedd ymwybyddiaeth gryf o gyfrifoldebau proffesiynol, gan gynnwys y Ddyletswydd Gonestrwydd a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a chafwyd sylwadau cadarnhaol am y trefniadau atal a rheoli heintiau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod adnoddau, cyfarpar a chymorth digonol ar gael iddynt.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ac effeithiol ar waith yn y practis, gyda threfniadau llywodraethu, arwain ac atebolrwydd priodol ar waith a oedd i'w gweld yn gymesur i faint y gwasanaeth. Roedd y practis wedi cynnal datganiad o ddiben ysgrifenedig ac wedi defnyddio dulliau datblygu tîm, gan gynnwys gwaith cynaliadwyedd y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth, i gefnogi myfyrdod, gwelliannau a chydnabyddiaeth i staff.

Roedd gwaith tîm yn cael ei gefnogi drwy gyfarfodydd practis misol, gyda chofnodion ar gael yn ystafell y staff er mwyn i'r staff eu darllen a'u llofnodi, ochr yn ochr â defnyddio rhaglen negeseuon ar-lein i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr. Roedd arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad parhaus drwy drafodaethau un-i-un, lle roedd staff yn cael eu hannog i fyfyrio ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda, beth oedd modd ei wella ac yn cytuno ar amcanion gydag amserlenni i'w cyflawni.

Roedd trefniadau cadarnhaol wedi'u disgrifio hefyd ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli risgiau, problemau a chamau lliniaru. Roedd prosesau cyfathrebu mewnol yn cael eu defnyddio i rannu hysbysiadau diogelwch ac argymhellion ar draws practisau, gyda thasgau'n cael eu pennu i reolwyr y practisau er mwyn cadarnhau'r camau a gymerwyd. Roedd polisïau a gweithdrefnau'n cael eu rheoli drwy broses gorfforaethol, gyda rheolwyr y practis yn gwirio bod fersiynau cywir yn cael eu defnyddio bob chwe mis a bod cyfathrebiadau mewnol yn cael eu defnyddio i hysbysu staff ynghylch unrhyw newidiadau rhwng adolygiadau wedi'u hamserlennu.

Trafododd rheolwr y practis sut roedd yn bwriadu parhau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu da oedd yn bodoli drwy sicrhau bod tystiolaeth o drafodaethau, camau gweithredu y cytunwyd arnynt a thasgau a oedd wedi'u cwblhau yn cael eu dogfennu'n gyson ac ar gael yn hawdd. Byddai hyn yn helpu i ddangos effeithiolrwydd y systemau

sydd eisoes ar waith a darparu llwybr archwilio clir sy'n dangos sut mae dysgu, hysbysiadau diogelwch, diweddariadau polisi a chamau gweithredu datblygu'r tîm yn cael eu rhoi ar waith a'u rhannu ar draws y tîm.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd y practis wedi cynnal systemau cadarnhaol i gefnogi staffio, recriwtio, hyfforddiant a chydymffurfiaeth broffesiynol ddiogel. Roedd y lefelau staffio yn cael eu rheoli drwy oruchwylio rotâu, gwiriadau dyddiol a sicrhau bod staff hyblyg ar gael, gyda threfniadau rhoi gwybod am salwch ar waith i gefnogi newidiadau amserol lle bo angen.

Fodd bynnag, roedd tri allan o'r wyth aelod o staff a wnaeth ymateb i holiadur staff AGIC yn teimlo na allent fodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, ac nad oes digon o staff ar gael iddynt allu cyflawni eu gwaith yn iawn. Dywedodd un aelod o'r staff:

> *"Mae diffyg capasiti deintyddol y GIG yn y practis yn llethol ac yn achosi straen eithafol. Mae methu â diwallu anghenion a gorchmynion y cleifion yn anodd iawn ac mae'r gamdriniaeth rwy'n ei chael ar lafar bob dydd yn eithafol. Ar wahân i hyn - mae'r practis yn braf pan fydd yn llawn staff a chyflawnir gwaith i lefel foddhaol."*

Dywedodd un claf hefyd:

> *"Roedd hi'n amhosibl trefnu apwyntiad brys ar gyfer crawniad (abscess) yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd prinder deintyddion."*

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC bod pryderon a godwyd gan staff mewn perthynas â llwyth gwaith, lefelau staffio a straen yn y gweithle wedi'u hystyried a'u hasesu mewn modd priodol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd i gefnogi llesiant staff a sicrhau bod digon o gapasiti i ddarparu mynediad amserol at ofal deintyddol y GIG, gan gynnwys apwyntiadau brys.

Roedd systemau'n cael eu defnyddio i gefnogi cynefino, sefydlu, goruchwylio hyfforddiant a monitro DPP, gyda'r staff yn derbyn negeseuon ysgogi ac atgoffa pan oedd hyfforddiant neu ofynion cydymffurfio'n ddisgwyliedig. Roedd staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant drwy amser gwarchodedig a chymorth wrth weithio, gyda thystiolaeth fel tystysgrifau cwblhau, ffeiliau'r staff a matrics hyfforddiant ar gael i'w hadolygu yn ystod yr arolygiad.

Roedd y practis yn dangos lefel dda o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau proffesiynol ymhlith y staff. Roedd cofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, cofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, arfarniadau a gwiriadau recriwtio yn cael eu monitro

gan reolwr y practis, gyda phrosesau cynefino yn cefnogi gwiriadau geirda a threfniadau dechrau swydd.

Roedd y staff yn ymwybodol o bolisïau perthnasol ac yn gweithio yn unol â nhw, gan gynnwys polisïau recriwtio, sefydlu a chwythu'r chwiban. Nododd y rhai y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon os oedd angen, a oedd yn adlewyrchu diwylliant cadarnhaol ac agored. Dywedwyd yr ymdrinnir â materion yn ymwneud â pherfformiad drwy drefniadau arfarnu, gyda'r opsiwn i ymateb yn gynt lle bo angen.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau cadarnhaol ar waith yn y practis i wrando ar adborth gan gleifion a dysgu oddi wrtho. Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth drwy flwch awgrymiadau yn y dderbynfa a negeseuon testun yn dilyn apwyntiadau. Trafodwyd yr holl adborth a dderbyniwyd yng nghyfarfodydd y practis. Roedd bwrdd “Dywedoch chi, gwnaethom ni” yn cael ei arddangos yn amlwg yn y dderbynfa, a oedd yn helpu i ddangos sut roedd adborth gan gleifion wedi'i gydnabod a'i ddefnyddio i gefnogi gwelliannau.

Roedd gweithdrefn gwyno hefyd ar waith yr oedd modd i gleifion ei darllen ac roedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y ffordd roedd modd codi cwynion a'u rheoli. Roedd y weithdrefn yn cydymffurfio â phroses gwyno, digwyddiadau a gwneud iawn ‘Gwrando ar Bobl’ GIG Cymru. Roedd y weithdrefn yn cynnwys gwybodaeth allweddol fel y broses gwyno, yr amserlenni disgwyliedig, yr opsiynau eiriolaeth a chymorth, y llwybrau uwchgyfeirio lle nad oedd modd cyflawni datrysiad lleol a manylion cyswllt AGIC ar gyfer gofal a thriniaeth ddeintyddol.

Roedd tîm cefnogi cleifion ar gael i helpu gyda chwynion ac roedd yn cynnig ail farn lle bo angen. Roedd aelod o staff dynodedig hefyd a oedd yn gyfrifol am drin cwynion a chafodd y rôl hon ei hysbysebu i gleifion. Roedd cwynion yn cael eu cofnodi ac roedd pryderon ar lafar neu anffurfiol yn cael eu nodi yn yr un ffordd â chwynion ffurfiol, a oedd yn cefnogi dull cyson.

Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd (dyletswydd) ar waith yn y practis ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol yn hyn o beth ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn cael eu hannog i godi pryderon a chyfathrebu'n agored â'r cleifion pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi bodloni trothwy'r ddyletswydd. Fodd bynnag, roedd y practis wedi ystyried y ddyletswydd ym mhob achos perthnasol ac wedi nodi y byddai cymorth i'r claf neu'r teulu wedi cael ei ystyried lle y bo angen.

Dywedodd y practis sut y byddai'n parhau i archwilio cwynion a phryderon er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach. Lle bo'n bosibl, byddai hyn yn cynnwys cryfhau'r broses drwy ddogfennu unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg a'r camau a gymerwyd mewn

ymateb i hynny yn ffurfiol, er mwyn gallu dangos tystiolaeth glir o ddysgu a gwelliannau parhaus.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ddefnyddio a rhannu gwybodaeth o ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd y digwyddiadau diogelwch cleifion hyn yn cael eu cefnogi gan boster adrodd amlwg yn ystafell y staff, a oedd yn cynnwys rhif cyswllt ac yn cyfeirio staff at y timau perthnasol i weithredu arnynt. Roedd y practis hefyd yn cynnal adnodd tracio digwyddiadau, gyda'r tîm iechyd a diogelwch yn monitro hyn er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth â'r amserlenni gofynnol.

Roedd gwybodaeth am ddiogelwch cleifion wedi'i rhannu ag aelodau'r tîm drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyfarfodydd staff, negeseuon e-bost, negeseuon ar-lein a hysbysfyrddau yn ystafell y staff. Roedd hyn yn dangos bod y practis wedi defnyddio sawl llwybr cyfathrebu er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y practis hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o ddigwyddiadau drwy ei dadansoddi a'i thrafod â staff, a oedd yn cefnogi datblygiad strategaethau i wella ansawdd y gwasanaeth.

Er mwyn cryfhau'r trefniadau hyn ymhellach, disgrifiodd rheolwr y practis sut y bydd y practis yn parhau â'i ddull o ddysgu o ddigwyddiadau a bod trafodaethau'r staff yn cael eu dogfennu'n glir, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, pobl gyfrifol a dyddiadau adolygu. Byddai hyn yn helpu i ddangos sut roedd gwybodaeth a rennir yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella gwasanaethau yn barhaus.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dangos ei fod wedi ymgorffori dull rhagweithiol ac wedi'i strwythuro o wella ansawdd a llywodraethu. Gwnaed hyn drwy ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus a chynnal safonau gan ddefnyddio prosesau gwella ansawdd, archwiliadau clinigol a systemau llywodraethu mewnol. Dangosodd y dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, a oedd yn defnyddio trefniadau llywodraethu mewnol fel meddalwedd cydymffurfio â gofal iechyd a systemau seiliedig ar dasgau i fonitro meysydd gan gynnwys polisïau, meddyginiaethau brys, negeseuon atgoffa i archebu cyffuriau, iechyd a diogelwch a dysgu chwarterol. Nodwyd bod y trefniadau ar gyfer llunio datganiad neu adroddiad blynyddol ar gyfer AGIC wedi'u cwblhau gan yr unigolyn cyfrifol pan oedd yn ofynnol.

Roedd rhaglen o archwiliadau clinigol yn cynnwys cadw cofnodion, atgyfeiriad gwrthficrobaidd, presgripsiynu gwrthfiotigau, gwastraff gofal iechyd, mynediad i bobl anabl ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu. Dangosodd y practis ei fod wedi defnyddio

canlyniadau archwiliadau i wneud gwelliannau, gan gynnwys cofnodi iechyd meddwl yn well a datblygu cynllun gweithredu i gefnogi'r broses cadw cofnodion.

Gallai'r staff gael adolygiad gan gymheiriaid a chyngor proffesiynol pan oedd angen ac roedd y practis yn monitro dysgu a gwelliannau drwy gwynion, adborth gan gleifion, ymchwiliadau, adroddiadau a digwyddiadau. Roedd safbwyntiau'r staff hefyd wedi'u casglu drwy arolwg “Lle Gwych i Weithio” dienw blynyddol, gyda'r canfyddiadau'n cael eu crynhoi ar lefel practis a'u rhannu â rheolwyr y practisau, gan helpu i lywio dealltwriaeth o brofiad y staff.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn defnyddio systemau rheoli ansawdd allanol i gasglu data ar berfformiad a chefnogi gwelliannau o ran ansawdd y gofal a ddarperir. Roedd hyn yn dangos dull cadarnhaol o fonitro perfformiad a defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i lywio datblygiad y gwasanaeth.

Roedd yr ymgysylltiad â phartneriaid y system ehangach yn amlwg, yn enwedig drwy rannu gwybodaeth â meddygon teulu mewn perthynas â digwyddiadau, pryderon diogelu ac ymholiadau am hanes meddyginiaeth. Er bod y rhyngweithio â fferyllwyr i'w weld yn gyfyngedig, cadarnhaodd y practis fod ganddo gysylltiadau â darpariaeth y fferyllfa leol.

Roedd y practis yn gweithredu o fewn strwythur corfforaethol ehangach MyDentist yn hytrach nac fel rhan o drefniant clwstwr. Roedd y gweithgarwch ymgysylltu yn sicrhau prosesau atgyfeirio symlach a chyfleoedd hyfforddi a rennir, a oedd yn cyfrannu at ofal cleifion cydlynol a chynhwysfawr o fewn eu cymuned. Roedd rhan y bwrdd iechyd drwy arolygiadau hefyd wedi darparu haen ychwanegol o oruchwyliaeth o'r tu allan.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Tonypandy

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad		
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Tonypandy

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Cododd un aelod o'r staff bryderon yn holiaduron AGIC mewn perthynas â phresenoldeb llwydni a oedd yn codi'n fynych mewn ardal glinigol. Nododd fod y mater wedi bod yn un parhaus am gyfnod estynedig a mynegodd bryderon nad oedd y camau unioni wedi mynd i'r afael yn llwyr â gwraidd yr achos. Mynegwyd pryderon hefyd mewn perthynas â'r effaith	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC fod pryderon a godwyd gan staff mewn perthynas â llwydni mynych mewn ardal glinigol wedi bod yn destun ymchwiliad llawn a bod camau gweithredu priodol wedi'u cymryd i nodi a mynd i'r afael â gwraidd unrhyw achos a'r risgiau iechyd a diogelwch cysylltiedig.	Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Rheoli Risg Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22	Mae rhywfaint o waith wedi'i gwblhau ar ollyngiad o ffenestr y to yn neintyddfa 2 lle roedd y gollyngiad wedi achosi rhywfaint o leithder o gwmpas ymyl y golau. Cadarnhaodd contractwr nad oedd unrhyw lwydni. Cywirwyd y gollyngiad a chafodd y lleithder ei drin.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	bosibl ar iechyd a diogelwch staff.					
2.	Dangosodd y dystiolaeth fod hyfforddiant diogelwch tân tri aelod o'r staff wedi dod i ben.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr aelodau perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant sydd heb ei gwblhau.	Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Rheoli Risg Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 12	Nid oedd pob tystysgrif hyfforddiant tân ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad	Rheolwr y Practis	Dim angen cam gweithredu
3.	Nodwyd rhai meysydd i'w gwella yng nghofnodion y cleifion hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y broses o gyfiawnhau pelydrau-X a rhoi gwybod amdanynt yn cael eu cofnodi'n glir, ynghyd â chydsyniad, trafodaethau am risgiau a manteision, manylion cysylltiad ag ymbelydredd, opsiynau iaith a chyngor ar roi'r gorau i smygu lle y bo'n berthnasol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n gyson a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol, gan gynnwys y meysydd a nodwyd yn ystod ein hadolygiad o gofnodion cleifion.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Cofnodion Cleifion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20	Bydd archwiliadau parhaus yn cael eu cwblhau i fonitro gwelliant y cyngor ar roi'r gorau i smygu, cardiau cofnodion a chynlluniau gweithredu radiograffau Mae'r adroddiad yn nodi bod y practis yn dangos ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac roedd trefniadau ar waith i geisio cymorth lle bo'n ofynnol.	Rheolwr y Practis	Parhaus

4.	Roedd tri o'r wyth aelod o staff a wnaeth ymateb i holiadur staff AGIC yn teimlo na allent fodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, ac nad oes digon o staff ar gael iddynt allu cyflawni eu gwaith yn iawn. Dywedodd un claf hefyd: *"Roedd hi'n amhosibl trefnu apwyntiad brys ar gyfer crawniad (abscess) yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd prinder deintyddion."*	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC bod pryderon a godwyd gan staff mewn perthynas â llwyth gwaith, lefelau staffio a straen yn y gweithle wedi'u hystyried a'u hasesu mewn modd priodol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd i gefnogi llesiant staff a sicrhau bod digon o gapasiti i ddarparu mynediad amserol at ofal deintyddol y GIG, gan gynnwys apwyntiadau brys.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Gweithlu medrus a galluog Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17	Yn ystod cyfarfodydd un-i-un diweddar gyfer phob aelod o'r staff, cadarnhawyd bod y pwysau roedd y tîm yn ei deimlo yn deillio o gyflwyno contract newydd y GIG. Mae'r gymhareb staffio uwchlaw'r gymhareb staff sy'n ofynnol gan alluogi nyrs ddihalogi ddyddiol. Caiff pob claf brys ei frysbennu gan ddeintydd pan fydd yn cysylltu â'r practis am apwyntiad brys. Os na fydd angen apwyntiad brys, caiff y claf gynnig yr apwyntiad nesaf sydd ar gael.	Rheolwr y Practis	wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Swydd: Rheolwr y Practis / Swyddog Rheoleiddio Dyddiad: 08/10/2026